

FestivalUK*2022

COFNODION PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG FESTIVAL 2022 LTD ("Festival")

2:00pm – 4:00pm, Dydd Iau 18 Chwefror 2021
Cynhaliwyd trwy Gyfarfod Microsoft
Teams

Aelodau:

Faraz Tasnim (FT) (Cadeirydd) Cyfarwyddwr y Bwrdd, Festival 2022 Ltd
Amali de Alwis (AA) Cyfarwyddwr y Bwrdd, Festival 2022 Ltd
Liam Hannaway (LH) Cyfarwyddwr y Bwrdd, Festival 2022 Ltd
Roger Lewis (RL) Cyfarwyddwr y Bwrdd, Festival 2022 Ltd

Arsyllwyr:

Vikki Heywood (VH) Cadeirydd, Festival 2022 Ltd
Daniel Coles (DC) Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
Ben Rodin (BR) Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
Sonia Coates (SC) Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
Alison Breadon (AB) PWC
Adam Richards (AR) PWC

Yn bresennol:

David Grady (DG) Prif Swyddog Ariannol y Grŵp, y Pwyllgor Trefnu a Festival 2022 Ltd
Caroline McGrory (CMcg) Ysgrifennydd Cwmni y Grŵp a Phrif Swyddog Cyfreithiol, y Pwyllgor Trefnu a Festival 2022 Ltd
John Darnbrook (JD) Pennaeth Integreiddio Busnes, Festival 2022 Ltd
Phil Batty (PBa) Cyfarwyddwr Gweithredol, Festival 2022 Ltd
Sarab Hair (SH) Cydlynnydd Gweithrediadau Corfforaethol, Festival 2022 Ltd (Ysgrifenyddiaeth)
Richard Pomfret (RP) Uwch-reolwr Cyllid, Festival 2022 Ltd
Lucy Bailey (LB) Uwch-gwnselydd Cyfreithiol, Festival 2022 Ltd

Ymddiheuriadau:

Greg Wilson (GW) Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

RHIF	EITEM	CYFRIFOLDEB DROS WEITHREDU
	Agorodd FT y cyfarfod gan gadarnhau'r agenda i'w thrafod. Dywedodd wrth y pwyllgor hefyd mai Mawrth 2021 fydd y cyfarfod Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg olaf y bydd VH yn bresennol ynddo. Bydd VH yn parhau i gael ei gwahodd drwy gydol y flwyddyn i ddod i gyfarfodydd yn ôl yr angen.	

<p>I.</p>	<p><u>Cymeradwyo Materion sy'n Codi</u></p> <p>Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2021.</p> <p>Trafododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y camau gweithredu ar gyfer Chwefror 2021 o'r traciwr, gan ofyn am eglurhad a'r wybodaeth ddiweddaraf gan y cynrychiolydd Festival perthnasol, a diweddarwyd y camau canlynol fel y nodir isod.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cam Gweithredu 1 - Penodi Archwilydd Mewnol – Derbyniwyd contract ac fe'i llofnodwyd gan bob parti. Caewyd y Cam Gweithredu. • Cam Gweithredu 2 - GW a FT i gwrdd ar gyfer Trafodaeth Ragarweiniol. Caewyd y Cam Gweithredu. • Cam Gweithredu 3 - Trosolwg o broffil cyllido y Pedair Cenedl i'w ddsbarthu – cynhwyswyd ym Mhecyn y Bwrdd i'w drafod yn ystod y cyfarfod. Caewyd y Cam Gweithredu. <p>Cam Gweithredu 11 - Dyddiadau cau clir i'w darparu ar gyfer cyflwyniad Ian Reid ym mis Chwefror 2021 fel y gall y Llywodraeth gymeradwyo'r gyllideb – cwblhawyd. Caewyd y Cam Gweithredu.</p>	
	<ul style="list-style-type: none"> • Cam Gweithredu 12 - Yr oedi wrth recriwtio i'w adlewyrchu yn y gyllideb – cynhwyswyd yn y gyllideb i'w drafod ar agenda'r cyfarfod. Caewyd y Cam Gweithredu. • Cam Gweithredu 13 - RP i adolygu sylwadau ar bolisi gwrth-dwyll gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon – nid yw hyn wedi ei weithredu. RP i gynhoi unrhyw newidiadau mewn ychydig o bwyntiau bwled yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. • Cam Gweithredu 15 - Trefnir cyfarfod bwrdd llawn ar y risg o golli cefnogaeth y cyhoedd – mae hyn wedi ei wneud. Caewyd y Cam Gweithredu. • Cam Gweithredu 16 - Diweddarau'r iaith fel bod risgiau coch yn fwy difrifol a chllir – mae hyn wedi ei ddiweddarau. Caewyd y Cam Gweithredu. • Cam Gweithredu 17 - Aileirio risg 62 – mae hyn wedi ei aileirio. Caewyd y Cam Gweithredu. 	<p>RP</p>
<p>2.</p>	<p><u>Diweddariad Gweithredol</u></p> <p>Darparodd PBa yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r pwyntiau allweddol i'w nodi fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau cadarnhaol o'r cyfarfod Sicrwydd Ansawdd rhwng Ian Reid ac Emma Squire ("ES"). Mae ES yn hyderus iawn gyda'r cynnydd a wnaed hyd yma. • Mae Festival yn parhau i ddarparu adnoddau er mwyn sicrhau ei fod yn barod ar gyfer cam cyflawni'r prosiect, sef o fis Ebrill ymlaen. • Mae cynlluniau gweithredu busnes ar gyfer y 9 mis nesaf wedi eu datblygu a byddant yn cael eu hadolygu gan y Tîm Uwch Arweinyddiaeth ac yna byddant yn mynd i'r Tîm Rheoli Gweithredol ym mis Mawrth 2021. • Crëwyd swyddogaeth diogelu data arbenigol a fydd yn cael ei rhannu rhwng y Pwyllgor Trefnu a Festival. • Ar hyn o bryd, mynd ati i ddatrys problemau gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig o ran eu cyllid drwy Fformiwla Barnett. Trafodwyd materion sy'n benodol i genhedloedd. Cytunodd PBa i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn electronig ar yr wythnos yn dechrau ar 22 Chwefror 2021. • Mae'r dewis ar gyfer y 10 tîm yn rhedeg ar amser ac yn unol â'r gyllideb. • Adolygiad Perfformiad ac Atebolrwydd/Cynllun Gweithredu Blynyddol – Mae gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon lefel uchel o hyder y bydd Festival yn symud o oren/coch i oren. <p>Risgiau gweithredol i'w darparu yn rhan o ddiweddariadau bydysawd risg yn y dyfodol ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.</p>	<p>JD</p>

<p>3.1</p>	<p><u>Cynllun Archwilio Allanol</u></p> <p>Rhoddodd BR drosolwg o'r Cynllun Archwilio Allanol ar gyfer y gwaith a wneir yn ystod y misoedd nesaf. Dosbarthwyd y papur hwn cyn y cyfarfod drwy ystafell fwrdd rithwir.</p> <p>Gofynnwyd am adroddiad canfyddiadau Interim</p> <p>Nododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Cynllun Archwilio Allanol</p>	<p>BR</p>
<p>3.2</p>	<p><u>Y Cynllun Archwilio Mewnol</u></p> <p>Rhoddodd AB/AR drosolwg o'r Cynllun Archwilio Mewnol. Dosbarthwyd y papur hwn cyn y cyfarfod drwy ystafell fwrdd rithwir.</p> <p>PWC i gwblhau gwiriadau annibynnol ar unrhyw wrthdaro buddiannau posibl sy'n deillio o wahanol adrannau mewnol yn gweithio gydag unrhyw un o'r deg tîm a gomisiynwyd</p> <p>Nodwyd ein bod yn rheoli contract saith comisiwn yn ariannol, yn gyfreithiol ac yn gontractiol a chymhwysir dull adolygu ychydig yn wahanol o'i gymharu â'r tri arall. Bydd y rheini'n cael eu rheoli fel cyd-ddibyniaethau a chynhaliwyd trafodaeth ar y berthynas rhwng gwahanol archwilwyr.</p> <p>Nododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Cynllun Archwilio Mewnol</p>	<p>AR</p>

<p>3.3</p>	<p><u>Cymeradwyo Cynlluniau Archwilio</u></p> <p>Cymeradwywyd atodiad y Siarter Safonol a'r cynlluniau archwilio a drafodwyd.</p>	
<p>4.1</p>	<p><u>Cymeradwyo Cyllideb Flynyddol 2021/22</u></p> <p>Rhoddodd RP drosolwg o'r Gyllideb Flynyddol, a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod drwy ystafell fwrdd rithwir. Roedd hwn yn ddiweddariad ers y cyfarfod diwethaf ac roedd yn dangos rhagolwg cyfnodau ariannol 2020/21 y flwyddyn ariannol hon a chymeradwyaeth cyllideb 2022.</p> <p>Nodwyd bod yn rhaid i Festival roi cyfrif am y gwariant blynyddol a reolir yn ei gyllideb yn y flwyddyn ariannol gyfredol, gan gynnwys y polisi diswyddo nad yw wedi ei gymeradwyo eto.</p> <p>Nododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg bapurau'r Gyllideb Flynyddol</p>	
<p>4.2</p>	<p><u>Y Polisi Teithio a Threuliau</u></p> <p>Rhoddodd RP drosolwg o'r polisi, a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod drwy ystafell fwrdd rithwir.</p> <p>Oherwydd bod gan Festival gynhyrchwyr sydd wedi eu cysylltu'n agos iawn â phrosiectau penodol, nodwyd bod Festival yn rhagweld y gofynnir am dreuliau rheolaidd.</p> <p>Nododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y polisi uchod.</p> <p><u>Polisi Atal Caethwasiaeth a Masnachu Pobl</u></p> <p>Rhoddodd JD drosolwg o'r polisi, a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod drwy ystafell fwrdd rithwir. Cytunwyd y byddai'r polisi'n cael ei ddiweddarau mewn cwpl o feysydd, gan gynnwys y cyfrifoldeb o ddydd i ddydd dros gydymffurfio â'r polisi sy'n dod i ran y Pennaeth Caffael, gyda chymorth cyfreithiol gan Gowling. JD i ddiweddarau'r polisi cyn i'r Bwrdd ei gymeradwyo.</p> <p>Nododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y polisi uchod.</p> <p>Cadarnhaodd JD y bydd sesiwn hyfforddi ar bolisi i holl gyflogeion Festival ar ôl Pasg 2021. Cytunodd JD i rannu cofrestr hyfforddi â'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn dilyn y</p>	<p>JD</p>

	sesiynau hyfforddi ym mis Ebrill 2021.	
<p>5.1</p>	<p><u>Dewis y Prosiectau Terfynol</u></p> <p>Rhannodd PBa set o sleidiau â'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, gan roi trosolwg manwl o'r broses ddylunio ymchwil a datblygu. Roedd y pwyntiau allweddol i'w nodi yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y broses hyd yma • Mae Festival ar y cam o argymell y 10 a ffefrir i'r Bwrdd. • Mae Festival yn bwriadu estyn cytundebau ymchwil a datblygu y 10 tîm am gyfnod o 120 diwrnod er mwyn galluogi Festival i adolygu a mireinio'r cynnig a fydd yn mynd gerbron y Bwrdd ar 4 Mehefin 2021. • Ar 5 Mawrth 2021, bydd Festival yn gofyn i'r Bwrdd gymeradwyo saith prosiect y DU a Lloegr, ac i nodi prosiectau arfaethedig Gogledd Iwerddon, Cymru a'r Alban . • Bydd dulliau cytundebol sylweddol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod Festival yn cael ei ddiogelu'n ddigonol. <p>Papur sy'n manylu ar y gofynion ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol a cherrig milltir i bob tîm i'w ddarparu.</p>	<p>PBa</p>
<p>6.0</p>	<p>Rhagolwg ac Unrhyw Fusnes Arall</p> <p>PBa i ddod â'r cytundeb rhyng-gwmni i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg nesaf.</p>	

Traciwr Camau Gweithredu		Y Sawl sy'n Gyfrifol	Dyddiad Cwblhau	Statws
Camau gweithredu o 29/01/21				
1	Y Bwrdd i gytuno ar ddatganiadau parodrwydd i dderbyn risg erbyn mis Mawrth 2021, yn dilyn cyfraniad Diwrnod Strategaeth - Bydd hyn yn mynd gerbron y Bwrdd ym mis Mawrth.	FT/VH	Mawrth 21	Ar y Gweill
2	Gofynnwyd am adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ynghylch cyfweiliadau ymadael ac achosion a fu bron â digwydd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg llawn nesaf.	JD	Mai 21	Cam Gweithredu Newydd
3	Cyfarfod â chymheiriaid yn y Gweinyddiaethau Datganoledig / Cyrff Cyflawni Strategol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fonitro ariannol ar draws rhaglenni er sicrwydd – nid yw hyn wedi ei gwblhau eto a bydd yn aros yn agored nes bydd y cyllid ar gael.	RP	Mawrth 21	Ar y Gweill
4	Trosolwg lefel uchel o Broffil Cyllido Festival i'w gynnwys yn y cynllun cyhoeddi, yn dilyn cynllunio cyfathrebu cydgysylltiedig	DG/PBa	Mawrth 21	Ar y Gweill
5	Sefyllfa'r dreth i barhau i gael ei hadolygu'n rheolaidd, gyda champau penodol i geisio cyngor ar Ryddhad Treth Theatr pan fydd y comisiynau terfynol yn hysbys.	RP	Mai 21	Ar y Gweill
7	Creu traciwr i olrhain statws y tîm o'i gymharu â'r hyfforddiant sydd wedi ei gwblhau/i'w gwblhau	RP	Mai 21	Ar y Gweill
8	Statws Coch Oren Gwyrdd i'w ddarparu ar y llif prosiectau caffael	JD	Mai 21	Ar y Gweill
Camau gweithredu o 18/02/21				
9	RP i grynhoi mewn pwyntiau bwled unrhyw newidiadau o'r sylwadau ar y polisi gwrth-dwyll gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon	RP	Mawrth 21	Cam Gweithredu Newydd
10	Risgiau gweithredol i'w darparu yn rhan o ddiweddariadau bydysawd risg yn y dyfodol ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg	JD	Mawrth 21	Cam Gweithredu Newydd
11	Gofynnwyd am adroddiad canfyddiad interim o'r Archwiliad Mewnol	BR	Mawrth 21	Cam Gweithredu Newydd
12	PWC i gwblhau gwiriadau annibynnol ar unrhyw wrthdaro buddiannau posibl sy'n deillio o wahanol adrannau mewnol yn gweithio gydag unrhyw un o'r deg tîm a gomisiynwyd	AR	Mawrth 21	Cam Gweithredu Newydd
13	Diweddarau polisi i adlewyrchu newidiadau'r Pwyllgor Trefnu gan gynnwys swyddogaeth y Pennaeth Caffael a diwygiadau eraill cyn i'r polisi gael ei gymeradwyo gan y bwrdd.	JD	Mawrth 21	Cam Gweithredu Newydd
14	Papur sy'n manylu ar y gofynion ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol a MI i bob tîm 7/10 i'w ddarparu.	PBa	Mawrth 21	Cam Gweithredu Newydd